

PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU
(Arolygiadau Safle)

10 Ionawr 2022

Yn bresennol: Cynghorydd R Owens (Cadeirydd)
Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd P Harries, Dr M Havard, Cynghorydd
M James, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan a'r Cynghorydd
S Yelland.

Swyddogion yn bresennol: Mrs N Gandy, Ms K Atrill, Ms J Rees-Wigmore
(Tre-fin yn unig), Mrs C Llewellyn (Cofnodion).

(Arolwg Safle: Trefdraeth 10.15 am. – 10.30 am; Tre-fin 11.30 am – 12.00 pm)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd P Baker BEM, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd M Evans, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, Mr GA Jones, Dr RM Plummer, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Williams.

2. NP/21/0508/FUL – Adeiladu annedd - Dandre, Feidr Ganol, Trefdraeth, Sir Benfro, SA42 0RR

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i'r cyfarfod a'u hatgoffa mai diben yr ymweliadau y diwrnod hwnnw oedd galluogi'r Aelodau i ymgyswyo â safleoedd y ceisiadau a'r ardal o'u cwmpas. Ni fyddai trafodaeth yn digwydd na phenderfyniad yn cael ei wneud tan i'r ceisiadau cynllunio gael eu hystyried mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn y dyfodol.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cais wedi cael ei ystyried yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar yr 8fed o Ragfyr 2021 pan gafodd ei ohirio i ganiatáu i arolwg safle gael ei gynnal. Yn y cyfarfod hwnnw roedd Cyngor Tref Trefdraeth a gwrthwynebydd wedi mynegi eu pryderon ynghylch diogelwch ffyrdd mewn perthynas â'r cais, er y nodwyd bod yr Awdurdod Prifffyrdd wedi argymhell caniatâd amodol gan eu bod yn fodlon y byddai digon o leoedd parcio yn cael eu darparu yn Dandre ac ar y safle arfaethedig.

Roedd y swyddogion wedi ystyried bod y cynllun arfaethedig yn dderbyniol o ran maint, ffurf, defnydd a dyluniad. Ni fyddai'r datblygiad yn achosi effaith andwyol annerbyniol ar rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol, ac ni ystyriwyd bod y datblygiad yn achosi effaith annerbyniol ar breifatrwydd nac ar amwynder yr eiddo cyfagos. Roeddent wedi argymhell bod y cais yn cael ei ddirprwyo i'r swyddogion ei ganiatáu, yn amodol ar dderbyn Ymgymheriad Unochrog wedi'i gwblhau.



Roedd yr Aelodau wedi cael golwg ar safle'r annedd arfaethedig, ac eglurodd y swyddog y byddai'r fynedfa yn cael ei lledu ac uchder y wal ar hyd ochr y ffordd yn cael ei ostwng i wella gweledd. Cafwyd golwg hefyd ar y newidiadau arfaethedig i'r cynllun parcio yn Dandre. Yna cerddodd pawb am ychydig ar hyd Feidr Ganol i ddeall natur y ffordd, er ei bod yn gul roedd sawl tramwyfa ar hyd y ffordd y gellid eu defnyddio i ganiatáu i draffig basio. Nodwyd hefyd bod y ffordd yn cael ei defnyddio'n helaeth gan gerddwyr yn cerdded i mewn i'r dref o gyrion Trefdraeth a llwybr yr arfordir gan nad oedd palmant drwy'r dref ar hyd yr A487. Ychwanegodd y swyddog ei bod o'r farn bod modurwyr sy'n defnyddio Feidr Ganol yn ymwybodol o'i natur a bod cerddwyr yn ei defnyddio ac o'r herwydd yn arafu.

Yn olaf, gan gyfeirio at y pwynt a wnaed gan wrthwynebwyr bod yr olygfa drwy'r safle wedi'i labelu yn bwysig yn y Datganiad Ardal Gadwraeth, dywedodd y swyddog bod y Swyddog Cadwraeth Adeiladau yn fodlon y byddai'r olygfa yn dal yn weladwy oherwydd lleoliad yr annedd, ac na fyddai unrhyw effaith niweidiol i'r Ardal Gadwraeth.

Yna gohiriodd y Cadeirydd yr ymweliad safle er mwyn teithio ymlaen i'r safle nesaf.

3. NP/21/0577/FUL - Datblygiad preswyl o 11 annedd (gan gynnwys 2 fforddiadwy) – Tir ger Cefn Gallod, Trefin, Hwlfordd, Sir Benfro, SA62 5AP

Roedd y cais hwn am ddatblygiad mawr yn ceisio caniatâd cynllunio llawn ar gyfer adeiladu 2 dŷ fforddiadwy a 9 tŷ marchnad agored ar safle maes glas, a neilltuwyd ar gyfer datblygiad preswyl yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI).

Dywedodd y swyddog y byddai mynediad i'r safle oddi ar Cefn Gallod, a bod nifer o bryderon wedi'u mynegi ynglŷn â hyn ac ynglŷn â cholli llefydd parcio o ganlyniad. Cafodd yr Aelodau olwg ar y fynedfa arfaethedig, ac yna cerddwyd i'r fynedfa bresennol i'r cae fyddai'n cael ei defnyddio ar gyfer traffig adeiladu, ond fyddai'n cael ei chau unwaith y byddai'r gwaith adeiladu wedi'i gwblhau. Nodwyd bod clawdd hanesyddol ar dair ochr y safle oedd wedi'i glustnodi yn y CDLI fel clawdd o bwys i gymeriad y rhan hon o'r pentref ac yn argymhell cadw'r clawdd. Byddai'r clawdd yn cael ei ddiogelu yn ystod y gwaith adeiladu a hefyd unwaith y byddai'r datblygiad wedi'i gwblhau. Cytunodd y swyddog i ymchwilio i weld pwy fyddai'n gyfrifol am ei gynnal a'i gadw yn y tymor hir.

Dywedodd y swyddog hefyd ei bod yn dal i aros am ymateb i'r ymgynghoriad oddi wrth Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed oedd yn ceisio canfod a oedd y safle o bwysigrwydd archaeolegol fel lleoliad cyn Balas yr Esgob.



Yn olaf, aeth yr Aelodau ar y safle a nodi uchder cribau'r tai yn y cyffiniau yn sgîl natur lethrog y tir.

Gan ddiolch i bawb am ddod, daeth y Cadeirydd â'r ymweliad safle i ben.

